

Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y [Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) ar y [effaith pandemig COVID-19, a'i reolaeth, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru](#)

This response was submitted to the [Health and Social Care Committee](#) consultation on [the impact of the COVID-19 pandemic, and its management, on health and social care in Wales](#)

COV 11

Ymateb gan: | Response from: Association of the British Pharmaceutical Industry (ABPI) Cymru Wales

-



Effaith pandemig COVID-19, a'i rheolaeth, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru – Ymateb ABPI Cymru Wales



Pwy ydym ni:

Mae Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain (ABPI)ⁱ yn bodoli i wneud y DU y lle gorau yn y byd i ymchwilio, datblygu a defnyddio meddyginiaethau newydd. Rydym yn cynrychioli cwmnïau o bob maint sy'n buddsoddi mewn darganfod meddyginiaethau'r dyfodol. Mae ein haelodau'n cyflenwi triniaethau blaengar sy'n gwella ac yn achub bywydau miliynau o bobl. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraethau a'r GIG fel y gall cleifion gael triniaethau newydd yn gyflymach a gall y GIG gynllunio faint mae'n ei wario ar feddyginiaethau. Mae ein haelodau yn chwarae rhan flaenllaw yn y DU ac yn fyd-eang wrth ymateb i COVID-19, y byddwn yn ei drafod yn ddiweddarach yn y cyflwyniad hwn.

Diolch i chi am y cyfle i ymateb i'ch ymholiad ar effaith yr achosion o COVID-19, a'i rheolaeth, ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Gobeithiwn y bydd yr ymateb hwn, yn ogystal â'ch helpu i ystyried yr effaith ar staff, cleifion ac eraill sy'n derbyn gofal neu driniaeth mewn lleoliadau clinigol a'r gymuned hefyd yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i chi o sut mae ein diwydiant wedi bod yn cefnogi GIG Cymru. Os oes cwestiynau penodol am ymdrechion ein haelodau neu unrhyw agwedd ar y cyflwyniad hwn, cysylltwch â ni.

Mae'r sector Gwyddorau Bywyd yng Nghymru yn cyflogi tua 11,000 o bobl mewn swyddi o ansawdd uchel sy'n talu'n dda ac mae'n allforio tua £980mⁱⁱ. Mae gan ddau aelod ABPI gyfleusterau gweithgynhyrchu sylweddol yng Nghymru: Norgineⁱⁱⁱ (yn Ne Cymru) ac Ipsen^{iv} (yng Ngogledd Cymru). Mae gan aelodau eraill bresenoldeb maes ledled Cymru, ac mae rhai'n cydweithio â Llywodraeth Cymru, GIG Cymru, y trydydd sector a/neu'r byd academaidd^v.

Ers dechrau'r pandemig, mae'r diwydiant fferyllol wedi ymrwymo i weithio gyda llywodraethau a phartneriaid ledled y byd i sicrhau bod triniaethau a brechlynnau COVID-19 ar gael ac yn fforddiadwy i'r cleifion sydd eu hangen^{vi,vii}, gan weithio ar y cyd^{viii}, rydym wedi ceisio cefnogi'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, gyda blaenoriaethau'n canolbwyntio ar:

- Ymchwilio a datblygu triniaethau a brechlynnau diogel ac effeithiol ar gyfer COVID-19
- Sicrhau cyflenwad meddyginiaethau i gleifion
- Cefnogi'r GIG i ymateb i'r argyfwng, drwy dynnu ar arbenigedd ein haelodau

Ymchwilio a datblygu triniaethau a brechlynnau diogel ac effeithiol ar gyfer COVID-19

Mae'r ymdrech ymchwil a datblygu byd-eang mewn ymateb i'r pandemig COVID-19 wedi bod yn ddigynsail o ran maint a chyflymder. Mae cwmnïau a phartneriaethau lluosog wedi edrych ar ddatblygu a gweithgynhyrchu brechlynnau a therapïau COVID-19, y mae rhai ohonynt bellach wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus ledled y byd. Hyd yn oed nawr, ym mis Ionawr 2022, mae 137 o ymgeiswyr brechlyn pellach mewn datblygiad clinigol, gyda 194 mewn datblygiad cyn-glinigol^{ix}. Mae'r ymgeiswyr newydd hyn yn seiliedig ar dechnolegau gwahanol neu'n ymchwilio i lwybrau gweinyddu newydd neu gyfundrefnau dosio.

Mae'r ymateb byd-eang i COVID-19 wedi gweld yr amserlen arferol ar gyfer datblygu brechlynnau wedi'i chrynhai'n sylweddol. Mae hyn wedi digwydd oherwydd ffactorau, gan gynnwys:

- **Cydweithio** rhyngwladol ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen, rhwng diwydiant, llywodraethau cenedlaethol, a'r byd academiaidd
- Adeiladu ar ddegawdau o **wybodaeth a phrofiad** gyda chlefydau tebyg fel MERS a SARS, a chyfeirio hyn tuag at ddatblygu brechlynnau COVID-19
- **Dilyniant genomig cyflym** o'r firws pan gafodd ei ddarganfod gyntaf, gan alluogi gwell dealltwriaeth o'i lasbrint genetig, a darparu targed cliriach ar gyfer ymdrechion ymchwil a datblygu
- **Cyfathrebu a deialog** rheolaidd rhwng datblygwyr brechlynnau a rheoleiddwyr, i nodi a mynd i'r afael â rhwystrau yn y broses ymchwil a datblygu
- Blaenoriaethu ymchwil COVID-19 addawol trwy sefydlu Astudiaethau Iechyd Cyhoeddus Brys^x yn y DU (a mentrau tebyg dramor), a alluogodd **gymeradwyaeth gyflym a sefydlu treialon clinigol** ac a gefnogodd **recriwtio cleifion ar raddfa fawr dros gyfnod byr o amser**.
- Ymgymryd â chymau **datblygu ochr yn ochr** yn hytrach nag yn olynol er mwyn cynyddu effeithlonrwydd, er bod y dull hwn yn peri risg ariannol sylweddol i gwmnïau.

Mae cynhyrchwyr brechlynnau ledled y byd bellach yn cynhyrchu 1.5 biliwn dos y mis, a disgwylir i hyn barhau i dyfu. Rhagwelwyd y byddai 12 biliwn o frechlynnau wedi'u cynhyrchu erbyn diwedd 2021 ac, os nad oes unrhyw dagfeydd mawr, erbyn mis Mehefin 2022 amcangyfrifir y bydd cyfanswm y brechlynnau a gynhyrchir yn cyrraedd dros 24 biliwn ac erbyn hynny mae'n debygol y bydd cyflenwadau brechlyn yn fwy na'r galw byd-eang^{xi}.

Gyda brechlynnau COVID-19 lluosog bellach wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio yn y DU, ac o bosibl eraill i ddilyn, mae'n bwysig bod y cyhoedd yn parhau i gydnabod bod cyflymder y datblygiad yn ganlyniad i gyllid 'mewn perygl' digynsail, ymdrechion ymchwil cydweithredol, y

defnydd o dechnoleg newydd ac offer dadansoddol, cyfranogiad miloedd o bobl mewn treialon clinigol, ac yn hollbwysig, rhedeg camau datblygu ochr yn ochr yn hytrach nag yn ddilyniannol. Mae hyn yr un mor berthnasol – ac yn hollbwysig – ar gyfer sicrhau hyder mewn therapiwteg COVID-19.

Ers dechrau'r pandemig, mae cwmnïau wedi bod yn datblygu meddyginiaethau newydd, a elwir weithiau'n therapiwteg, wedi'u cynllunio'n benodol i drin COVID-19 a'i symptomau ar draws pob cam; o broffylacsis i bobl sy'n agored i'r firws, i gleifion â symptomau cynnar neu ysgafn, i gleifion difrifol wael, yn ogystal ag unigolion sy'n delio â symptomau COVID-hir. O ystyried bod y rhain yn feddyginiaethau wedi'u teilwra, gallent o bosibl gael effaith sylweddol ar grwpiau cleifion a pharhau'n hollbwysig i'r rhai nad ydynt yn cael eu cynghori ar hyn o bryd i ddod ymlaen i gael eu brechu. Mae ymchwilyr ledled y byd yn ymchwilio i 650 o ymgeiswyr therapiwtig (gwrthfeirysau a thriniaethau)^{xii,xiii}, yn ogystal â'r rhai sy'n dod ar gael yn rheolaidd^{xiv}. Mae'n allweddol bod digon o gefnogaeth a blaenoriaethu'n cael eu rhoi i hwyluso pob cam o dreialon ar gyfer therapiwteg newydd o'r fath, ond bod hyn yn cael ei ymestyn ar draws pob grŵp therapi pan fo'n briodol.

Yn 2018 (y flwyddyn ddiwethaf y mae ffigurau ar gael ar ei gyfer ar hyn o bryd a chyn effaith y pandemig COVID-19), roedd gwariant y diwydiant fferyllol ar ymchwil a datblygu yng Nghymru yn £37m^{xv}. Mae integreiddio ymchwil glinigol fel rhan o ddarparu gwasanaeth a thriniaeth ar gyfer cleifion COVID-19 wedi bod yn gyflym ac yn effeithiol. Mae ABPI wedi dadlau o'r blaen^{xvi} y dylai Llywodraeth Cymru gymryd yr hyn a ddysgwyd o'r integreiddio 'carlam' hwn i ehangu'r broses o fabwysiadu ymchwil glinigol nad yw'n gysylltiedig â COVID-19 ar raddfa fawr wrth ddarparu gwasanaethau a chychwyn treialon newydd yn gyflym o fewn GIG Cymru, i'w wneud yn fwy deniadol, a lleoliad blaengar i wneud ymchwil glinigol yn y dyfodol^{xvii,xviii}. Dylai hyn gynnwys caniatáu mynediad wedi'i reoli at ddadansoddeg system gyfan a symud tuag at y defnydd arferol o dechnoleg ddigidol ar gyfer casglu a monitro data; adeiladu ar y defnydd o defnyddiaeth; a'r defnydd o e-gydsyniad. Mae gwell dealltwriaeth a phrofiad gyda systemau cyfathrebu rhithwir trwy gydol COVID-19 yn agor y drws ar gyfer ymgysylltu gwell â chleifion, nyrsio cartref, ac ar gyfer rhai treialon clinigol, gallai alluogi cyfranogiad cleifion heb ymweliadau rheolaidd ag ysbyty neu safle treial.

Sicrhau cyflenwad meddyginiaethau i gleifion

Yn ganolog i'n gallu i gefnogi cleifion drwy gydol COVID-19 fu sicrhau bod y gadwyn gyflenwi fferyllol yn parhau'n gryf ac yn wydn. Dros y degawdau, mae gweithgynhyrchwyr fferyllol wedi adeiladu cadwyni cyflenwi byd-eang cadarn yn ofalus i sicrhau bod cleifion yng Nghymru, y DU a ledled y byd yn gallu cael mynediad parhaus at feddyginiaethau.

Mae'r angen am gadwyni cyflenwi byd-eang yn bedwarplyg, er mwyn sicrhau:

- i. Mae meddyginiaethau a brechlynnau'n cael eu cynhyrchu trwy safonau rheoleiddio a gydnabyddir yn rhyngwladol i sicrhau eu hansawdd a'u diogelwch

- ii. Gall cwmnïau weithgynhyrchu yn ôl y galw cenedlaethol ar y raddfa sydd ei hangen i ddarparu nifer y meddyginiaethau a brechlynnau i wasanaethu pob claf ledled y byd
- iii. Mae cadwyni cyflenwi yn gadarn ac yn wydn, gydag amrywiaeth yn allweddol i lwyddiant cadwyni cyflenwi, gan alluogi gweithgynhyrchwyr i addasu yn ôl yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ac osgoi prinderau neu amhariadau posibl
- iv. Mae meddyginiaethau a brechlynnau'n cael eu dosbarthu'n deg ac yn gyfartal i bob system iechyd, gan gynnwys GIG Cymru

Heb os, bu galw rhyngwladol rhyfeddol am rai dosbarthiadau meddygaeth, ond mae cynlluniau parhad busnes fferyllol wedi profi i fod yn hynod wydn. Mae cydgysylltu rhyngwladol a rhannu gwybodaeth o fewn cwmnïau byd-eang, ac ymdrech enfawr ar ran diwydiant i gynyddu a lle bo angen ailgyfeirio gweithgynhyrchu wedi sicrhau bod cleifion yng Nghymru wedi parhau i allu cael gafael ar y meddyginiaethau critigol sydd eu hangen arnynt.

O'r mwy na 12,000 o wahanol feddyginiaethau presgripsiwn a ddefnyddir gan GIG Cymru, yn ystod y cyfnod ymateb i COVID-19 dim ond nifer fach a ysgogodd 'rhybudd amharu ar gyflenwad' gan y GIG. Ym mhob un o'r achosion hyn, cyfyngwyd ar yr effeithiau negyddol posibl gan reolaeth gydlynol ofalus gan gyflenwyr a'r GIG tra'n cychwyn dod o hyd i gyflenwadau amgen neu drwy gyhoeddi cyngor clinigol ar reoli cleifion yr effeithiwyd arnynt pan fo angen.

I gefnogi'r GIG, trwy gydol y pandemig mae aelodau ABPI wedi blaenoriaethu cyflenwad meddyginiaethau, brechlynnau, a thechnolegau iechyd i gleifion, gan liniaru unrhyw effeithiau trwy newid eu hymdrechion cyflenwi a gweithgynhyrchu byd-eang. Profodd y gadwyn gyflenwi byd-eang i fod yn wydn, ac roedd y mwyafrif llethol o'r diwydiant fferyllol yn gallu parhau i fodloni'r galw eithriadol am feddyginiaethau presgripsiwn trwy gydol y pandemig. Gan edrych i'r dyfodol, byddem yn annog mwy o ystyriaeth i'r effaith y gall newidiadau clinigol, daearyddol ac ymddygiadol ei chael ar y cyflenwad o feddyginiaethau. Mae deall y galw yn rhan hanfodol o gadwyn gyflenwi wydn ac mae'n hanfodol bod cwmnïau fferyllol a chymdeithasau masnach yn cael rhybudd ymlaen llaw o unrhyw effaith ddisgwyliedig ar gyflenwad meddyginiaethau neu frechlynnau, er mwyn sicrhau y gellir rhoi cynllunio, paratodau a threfniadau wrth gefn ar waith, lle bo angen.

Wrth i fgythiad COVID-19 ddod i'r amlwg yn 2020, ceisiodd yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA)^{xix} yn gyflym iawn ymgysylltu â'r diwydiant am ystwythder rheoleiddio a fyddai'n sicrhau cyflenwadau o feddyginiaethau critigol i unedau triniaeth ddwys y GIG (ITUs) ac yn caniatáu i gwmnïau fferyllol i ganolbwyntio eu hadnoddau ar ddatblygu brechlynnau a therapïau. Roedd cydweithredu rheoleiddiol rhyngwladol i leihau rhwystrau i fynediad ar draws ffiniau a chydag arweinyddiaeth MHRA wrth gysoni adolygiadau o ddata diogelwch wrth i'r treialon clinigol fynd rhagddynt. Drwy gydol y pandemig, mae'r MHRA wedi datblygu ffyrdd newydd o

weithio, gan ymateb yn gyflym i amgylchiadau sy'n newid. Mae profiad yr MHRA yn ystod yr argyfwng yn dangos bod yna amrywiaeth o ffyrdd newydd o weithio a newidiadau polisi a all ddarparu amgylchedd rheoleiddio ystyryth sy'n edrych i'r dyfodol ac amddiffyn cleifion yn greiddiol iddo.

Yn yr un modd, o wanwyn 2020 ymlaen, arweiniodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)^{xx} y gwaith o lunio canllawiau cyflym i ymateb i'r heriau, a gyflwynwyd i gydweithwyr ar draws GIG Cymru drwy Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)^{xxi}, a oedd yn cynnig gwasanaeth effeithiol a llwybr i aildddechrau gweithdrefnau clinigol yn gyflym. Dylid cynnwys yr hyn a ddysgwyd o hyn yn esblygiad dulliau NICE^{xxii} a gweithgareddau AWMSG i helpu cleifion i gael mynediad cyflymach at driniaethau arloesol. Dylai'r Pwyllgor annog Llywodraeth Cymru i annog defnydd eang o driniaethau newydd, arloesol a'u gwreiddio'n gyflym ac ar raddfa fawr i ddarparu mwy o opsiynau i gleifion tra'n cynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau.

Wrth i'r GIG ddechrau ailgyflwyno gwasanaethau a gweithdrefnau, mae'n hollbwysig nad yw'r ymdrech hon wedi'i chyfyngu i waith cynllunio a pharatoi mewnol y GIG ac eithrio rhanddeiliaid a chyfranwyr eraill. Bydd newid yn llwybrau ac arferion cleifion yn effeithio ar gleifion a phartneriaid eraill nad ydynt yn rhan o'r GIG ym maes iechyd, gan gynnwys y cyflenwyr meddyginiaethau, lle mae eu cynllunio a'u paratoi yn debygol o fod yn hollbwysig i lwyddiant cyffredinol. Yn dilyn profiadau trwy COVID-19, mae pwysigrwydd dull cyd-gynhyrchu a chydweithredol o gyflenwi wedi dod yn amlwg. Gobeithiwn y daw'r hyn a ddysgir yn arfer da cydnabyddedig wrth ddarparu pob agwedd ar ofal iechyd yn y dyfodol. Rydym wedi ystyried agweddau ar Adferiad GIG o'r blaen o safbwynt y DU a Chymru^{xxiii,xxiv}.

Bydd rhaid meddwl yn gyfartal hefyd am gadarnhau newidiadau diogel ac effeithiol mewn arferion clinigol, lle dangoswyd bod meddyginiaethau arloesol a ddefnyddir yn gynnar yn y llwybrau triniaeth yn arafu ac yn atal datblygiad clefyd a/neu leihau cleifion sydd angen gofal eilaidd neu gymorth trydyddol. Mae enghreifftiau wedi cynnwys symud cleifion sydd angen gwrth-geulo i ffwrdd o warfarin, sy'n golygu bod angen monitro helaeth, a thuag at wrthgeulo arloesol, uniongyrchol (neu newydd) (DOACs/NOACs)^{xxv}. Unwaith eto, creodd COVID-19 yrwyr ar gyfer y defnydd ehangach a chyflym o arloesi i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â gofal seiliedig ar leoliad. Bydd heriau tebyg yn parhau yn y dyfodol wrth i'r GIG frwydro yn erbyn ei ffordd drwy restrau aros estynedig. Mae'n hanfodol bod mabwysiadu arloesi profedig yn gynnar ac yn eang yn parhau i gael ei gydnabod fel ffordd addas a phriodol ymlaen.

Cefnogi'r GIG i ymateb i'r argyfwng, drwy dynnu ar arbenigedd ein haelodau

Mae'r diwydiant fferyllol yn gweld ei hun fel partner cyflawn i'r GIG wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae ABPI a'i aelodau yn deall bod y diwydiant fferyllol wedi bod mewn sefyllfa unigryw yn ystod y pandemig i ymateb trwy ddatblygu triniaethau a

brechlynnau newydd, cyflenwi meddyginiaeth, a defnyddio ein harbenigedd profi diagnostig. Dangoswyd hyn yn weithredol yn ystod anterth y pandemig COVID-19, pan oedd ein haelodau'n cyfrannu'n gyson y tu hwnt i'w gweithgareddau a'u swyddogaethau arferol, gan wirfoddoli gweithwyr i helpu ymdrech y GIG yn uniongyrchol a rhoi triniaethau ac offer ar draws ein gwasanaeth iechyd^{xxvi}.

Fel y trafodwyd yn flaenorol, yn ystod ac yn dilyn tonnau cynharach y pandemig, mae'r ABPI yn ymwybodol bod rhai llwybrau gofal a thriniaeth wedi'u hymestyn a'u rhoi ar lwybr carlam, er mwyn cefnogi cleifion yn well. Erys heriau tebyg wrth i'r GIG frwydro ei ffordd trwy restrau aros ôl-COVID-19 estynedig. Mae'n hollbwysig bod mabwysiadu modelau gofal gwahanol yn gynnar ac yn eang yn parhau i gael ei gydnabod fel ffordd addas a phriodol ymlaen. Mae'r diwydiant fferyllol yn awyddus i chwarae ei ran i gefnogi'r newidiadau hyn.

Byddai cyfleoedd ymgysylltu cynnar ac arddangosiad clir o barodrwydd y GIG i gydweithio yn galluogi ein haelodau i nodi meysydd lle gallant barhau i gefnogi GIG Cymru yn y dyfodol. Ers dechrau'r pandemig, mae pawb sy'n ymwneud â'r system iechyd wedi siarad mwy am arloesi yn ein gwasanaethau yng Nghymru, a'u trawsnewid, nag ar unrhyw adeg arall. Rydym wedi gweld y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu yng Nghymru yn esblygu, weithiau y tu hwnt i bob adnabyddiaeth, ac mae pawb yn gytûn ei fod yn ein gosod ar y llwybr cywir i ddarparu gofal cleifion, sy'n ddiogel ac yn gynaliadwy ar draws ein gwlad ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Ni allwn fforddio cefnu nac anghofio'r datblygiadau sydd wedi galluogi'r system iechyd o dan COVID-19, gan y gallai heriau'r dyfodol ar gyfer adferiad y GIG ar ôl COVID-19 fod yr un mor fawr a pharhaol.

Cafwyd cydnabyddiaeth hefyd y bydd darparu'r gwasanaethau hynny'n effeithiol yn elwa ar fwy o gydweithio ar draws pob sector, rhywbeth y byddem yn gofyn i'r Pwyllgor ei gefnogi. Rhaid i hyn fod yn sylfaenol i'n hadferiad a chyflwyno gwasanaethau teg ar gyfer y dyfodol. Gall cydweithredu rhwng sefydliadau GIG Cymru, aelodau ABPI, a chwmnïau fferyllol eraill ddarparu arbenigedd ac adnoddau ychwanegol yn y dyfodol a, thrwy weithio ochr yn ochr â Chonffederasiwn GIG Cymru, lluniodd ABPI Becyn Cymorth^{xxvii} i gefnogi hyn. Yr ydym wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar i ystyried y newidiadau a gwneir i'r iteriad diweddaraf o God Ymarfer ABPI ar gyfer y Diwydiant Fferyllol^{xxviii}. Mae'r Cod ABPI wedi'i ddiweddarau yn nodi gofynion newydd ar gyfer y diwydiant fferyllol ac yn cefnogi ein hymrwymiad parhaus i hunanreoleiddio ac i weithio mewn modd proffesiynol, moesegol a thryloyw.

Mae prosiectau Cydweithio a Gweithio ar y Cyd yn anelu at sicrhau 'enillion triphlyg' ar ffurf buddion i gleifion, y GIG a'r cwmni fferyllol neu gwmnïau sy'n gysylltiedig ac atgyfnerthu rhan allweddol o gynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, Dyfodol Iachach i Gymru^{xxix}. Gobeithiwn y bydd y pecyn cymorth cyhoeddedig yn helpu dyheadau ein holl gydweithwyr i gefnogi cleifion, a sefydliadau iechyd a gofal; i ddarparu'r gwasanaethau gorau oll, lle bynnag y bônt yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo i'w

ddatblygiad parhaus wrth inni ddysgu mwy, gyda'n gilydd, a gallwn ddarparu mwy o dystiolaeth o'r manteision y gellir eu cael i bawb o gydweithio tryloyw a theg.

Casgliad:

Gan edrych i'r dyfodol, bydd yr ABPI a'n haelodau yn parhau i gefnogi'r GIG yng Nghymru, a'n cydweithwyr ar draws yr holl sectorau cysylltiedig, i liniaru ac ymadfer o effaith pandemig COVID-19.

Yn ystod ei ymchwiliad parhaus, hoffem ofyn i'r Pwyllgor ystyried:

- Y rôl bwysig y gellid ei chwarae drwy integreiddio mwy o ymchwil glinigol i bob claf; ehangu mabwysiadu ymchwil glinigol ar draws y gwasanaethau a ddarperir a chychwyn treialon newydd yn gyflym o fewn GIG Cymru, gan ei wneud yn lle mwy deniadol i wneud ymchwil glinigol yn y dyfodol^{ix}.
- Gofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod effaith newidiadau clinigol, daearyddol ac ymddygiadol yn eu polisiau yn ystyried yn llawn yr effaith ar y cyflenwad o feddyginiaethau; bod y rôl hanfodol y gall cwmnïau fferyllol ei chwarae yn cael ei hadlewyrchu mewn ymgysylltiad rheolaidd â rhanddeiliaid, gan sicrhau rhybudd cynnar, ymlaen llaw, o newidiadau a ragwelir i ofynion cyflenwi meddyginiaethau neu frechlynnau.
- Y rôl y gall rheoleiddio cynyddol ochr yn ochr â newidiadau diogel ac effeithiol mewn arferion clinigol ei chwarae, lle mae meddyginiaethau arloesol a ddefnyddir yn gynnar yn y llwybrau triniaeth wedi'u hargymell i arafu ac atal clefyd rhag datblygu a/neu leihau cleifion sydd angen cymorth gofal eilaidd.
- Annog Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth parhaus ar gyfer y defnydd eang o driniaethau newydd, arloesol, gan eu gwreiddio ar gyflymder a graddfa i ddarparu mwy o opsiynau i gleifion tra'n cynyddu effeithiolrwydd gwasanaethau.
- Y rôl y gellid ei chwarae gan gydweithrediadau rhwng sefydliadau GIG Cymru, aelodau ABPI, a chwmnïau fferyllol eraill; yr arbenigedd a'r adnoddau ychwanegol sydd ar gael i wella darpariaeth gwasanaethau effeithiol yn ystod ein cyfnod hadferiad a chyflwyno gwasanaethau gwell ar gyfer y dyfodol.

ⁱ <https://www.abpi.org.uk/>

ⁱⁱ <https://shubwales.com/>

ⁱⁱⁱ <https://norgine.com/>

^{iv} <https://www.ipsen.com/>

^v <https://www.abpi.org.uk/media/8107/abpi-cymru-wales-spring-bulletin-2020-for-publication.pdf>

^{vi} <https://www.abpi.org.uk/covid-19/>

-
- vii <https://www.ifpma.org/resource-centre/pharma-joins-global-pledge-committing-to-work-together-to-beat-covid-19/>
- viii <https://www.abpi.org.uk/covid-19/what-are-pharmaceutical-companies-doing-to-tackle-covid-19/>
- ix <https://www.who.int/publications/m/item/draft-landscape-of-covid-19-candidate-vaccines>
- x <https://www.nihr.ac.uk/covid-studies/>
- xi <https://www.ifpma.org/resource-centre/momentum-of-covid-19-vaccine-manufacturing-production-scale-up-is-now-sufficient-for-step-change-in-distribution-and-opens-way-for-urgent-political-leadership-and-country-preparedness/>
- xii <https://www.bio.org/policy/human-health/vaccines-biodefense/coronavirus/pipeline-tracker>
- xiii Mae triniaethau'n cynnwys cyfran fawr o feddyginiaethau 'wedi'u hailgyfeirio' neu 'ailbwrpasol', yn enwedig yn y dosbarthiadau imiwnolegol/gwrthidiol. Mae cyfran lawer mwy - 71% - o'r cyffuriau gwrthfeirysol wedi'u targedu'n benodol at COVID-19.
- xiv <https://www.bbc.co.uk/news/health-52354520>
- xv <https://www.ons.gov.uk/economy/governmentpublicsectorandtaxes/researchanddevelopmentexpenditure/adhocs/11347researchanddevelopmentexpenditureinthepharmaceuticalsproductgroupperformedinukbusinessesbycountryorregion2018>
- xvi <https://business.senedd.wales/mqConsultationDisplay.aspx?id=398&RPID=1530682536&cp=yes>
- xvii <https://business.senedd.wales/documents/s101374/C18%20-%20Association%20of%20the%20British%20Pharmaceutical%20Industry.pdf>
- xviii <https://www.abpi.org.uk/covid-19/life-sciences-recovery-roadmap/>
- xix <https://www.gov.uk/government/organisations/medicines-and-healthcare-products-regulatory-agency>
- xx <https://www.nice.org.uk/>
- xxi <https://qsmcq.gig.cymru/>
- xxii <https://www.nice.org.uk/news/article/nice-s-processes-of-technology-evaluation-presenting-a-case-for-change>
- xxiii <https://www.abpi.org.uk/publications/life-sciences-recovery-roadmap/>
- xxiv <https://abpi.box.com/s/4zsj2qllno4rsgnhejqzrrdd0iostw6>
- xxv <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/cyfarwyddydau-cyfarwyddydau-i-fyrddau-iechyd-lleol-ynghylch-y-datganiad-o-hawloqaethau-ariannol-covid-19-atal-gaif-a-newid-gwasanaethau-ychwanegol-2021.pdf>
- xxvi <https://www.abpi.org.uk/media/1hqfh210/abpi-cymru-wales-summer-bulletin-2020-v3.pdf>
- xxvii <https://www.abpi.org.uk/publications/collaborative-working-and-joint-working-a-toolkit-for-industry-and-nhs-wales/>
- xxviii <https://www.abpi.org.uk/publications/code-of-practice-for-the-pharmaceutical-industry-2021/>
- xxix <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-09/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>
- xxx <https://business.senedd.wales/documents/s101374/C18%20-%20Association%20of%20the%20British%20Pharmaceutical%20Industry.pdf>
-